

11 Kier Hardie

Language notes

Impersonal tenses

Most sentences use active verb tenses, in which the subject carrying out an action is specified, for example:

Our neighbours will be having a party.	action by 'our neighbours'
The school teacher bought the house.	action by 'the school teacher'

In an **impersonal** tense, we are not told who or what is carrying out the action, for example:

A meeting will be held on Monday.	by whom?
The factory was built in 1880.	by whom?

As with most other verb tenses in Welsh, the impersonal tenses can use either a short (**cryno**) form or a long (**cwmpasog**) form.

The short form **present/future impersonal** uses the ending **-ir**, with slight changes replacing 'a' by 'e' in some verb stems. For example:

siaredir Cymraeg yma	siarad
Welsh is spoken here	
cynhelir cynhadledd ym mis Ionawr	cynnal
a conference will be held in January	

The short form past impersonal uses the ending **-wyd**. For example:

gwelwyd llawer o dwristiaid yn y pentref	
many tourists were seen in the village	
dymchwelwyd y tŷ pan adeiladwyd y ffordd	
the house was demolished when the road was built	

Some common verbs have irregular past impersonal forms:

dod	-	daethpwyd
mynd	-	aethpwyd
gwneud	-	gwnaethpwyd

These are heard fairly frequently in news announcements:

daethpwyd o hyd i gar yn yr afon	
a car was found in the river	
aethpwyd â dyn i'r ysbyty	
a man was taken to hospital	

The long form **present/future impersonal** uses **mae** and **cael**, or the present/future tense **ceith**, with the verb noun, for example:

mae tocynnau yn cael eu gwerthu yma	
or ceith tocynnau eu gwerthu yma	
tickets are sold here	

mae'r cadeirydd yn cael ei hethol wythnos nesaf

or **ceith y cadeirydd ei hethol wythnos nesaf**
the chairperson will be elected next week

The long form **past impersonal** uses the past tense of **cael** with the verb noun:

cafodd yr ysgol ei hagor yn 1990

the school was opened in 1990

cafodd y ras ei cwblhau mewn amser record

the race was completed in record time

Although not often heard in everyday speech, the impersonal tenses are fairly commonly used in written documents. Examples are: minutes of meetings, and announcements of forthcoming events.

Treigladau

In previous sessions we looked at a variety of situations in which a **treiglad meddal** is applied. It would be useful to review some of these again:

After the article 'y' in the case of singular feminine nouns:

Dringodd i'r graig i weld yr olygfa.

craig (f)

golygfa (f)

He climbed to the rock to see the view.

A treiglad is not applied after 'y' for masculine singular nor any plural nouns:

Fe wnaethon ni fwydo'r ci a'r cathod.

ci (m)

cath (f)

We fed the dog and the cats.

Adjectives following feminine singular nouns:

Fe ymwelon ni â'r arddangosfa fawr ddiddorol.

mawr

diddorol

We visited the large interesting exhibition.

A treiglad is not applied to adjectives following masculine singular nor any plural nouns:

Gwnaethon ni brynu cadeiriau bach a bwrdd rhad.

cadair (f)

bwrdd (m)

We bought small chairs and a cheap table.

Nouns which are preceded by an adjective:

Mae gan yr hen ddyn wir wybodaeth.

dyn (m) gwybodaeth (f)

The old man has true knowledge.

The numbers 'un' (feminine only) and 'dau/dwy' cause a treiglad:

Mae gan un orsaf ddwy fynedfa a dau faes parcio.

gorsaf (f) myneddfa (f)

One station has two entrances and two car parks.

maes parcio (m)

A verb at the start of a negative sentence has a treiglad:

Chafodd e ddim dewis.

cafodd

He had no choice.

Fydd y siop ddim ar agor yfory.

bydd

The shop will not be open tomorrow.

A verb at the start of a question has a treiglad meddal:

Ddarllenodd e'r llyfr?

darllen

Did he read the book?

The word '**fe**' or '**mi**' at the start of a positive statement causes a treiglad:

Fe gerddodd i mewn i'r dref. cerdded
He walked into the town.

A treiglad meddal occurs after the second person singular pronoun '**dy**':

Hoffwn i deithio yn dy gar gyda dy fam. car (m) mam (f)
I would like to travel in your car with your mother.

A treiglad meddal occurs after the third person singular pronoun '**ei**' when the pronoun replaces a masculine noun:

Roedd ei llyfr hi yn fwy diddorol nac ei lyfr fe. llyfr
Her book was more interesting than his book.

A treiglad meddal occurs after many prepositions: **am, ar, at, dan, dros, gan, heb, hyd, i, o, tan, trwy, wrth**

Cerddais trwy goedwig i llyn heb weld neb. coedwig llyn gweld
I walked through a forest to a lake without seeing anyone.

Idioms

The word '**wrth**' can have several meanings in sentences:

while

Gwelais ddyfrgi wrth gerdded ar hyd glan yr afon.
I saw an otter while walking along the river bank.

to, in the context of expressing an emotion towards someone

Roedd yr athrawes yn garedig wrth ei disgylion.
The teacher was kind to her pupils.

at, in the context of carrying out an activity

Dechreuon nhw'r daith gyda Dafydd wrth y llyw.
They began the journey with Dafydd at the wheel.

'wrth' occurs in a number of common phrases and idioms:

wrth eu bodd - in their element, delighted

Roedd y côr wrth eu bodd yn yr eisteddfod.
The choir loved the eisteddfod.

wrth law - near at hand

Fe symudon nhw i'r ardal oherwydd bod yr ysgol wrth law.
They moved to the area because the school was near at hand.

wrth gwrs - of course

Bydd yn rhaid i chi brynu tocyn, wrth gwrs.
You will have to buy a ticket, of course.

wrth reswm - obviously

Mae'n cymryd amser hir, wrth reswm, i yrru o Fangor i Gaerdydd.
It takes a long time, obviously, to drive from Bangor to Cardiff.

wrth cefn - in reserve

Mae ganddyn nhw arian wrth gefn ar gyfer unrhyw argyfwng.

They have got money in reserve for any emergency.

wrth reddf - instinctively

Sylweddolodd wrth reddf fod nam ar yr injan car.

He realised instinctively that the car engine was faulty.

Sentences

Gwerthwyd y llestri yn y farchnad.

The crockery was sold in the market.

Dewiswyd yr ardd ar gyfer gwobr arbennig.

The garden was chosen for a special prize.

Mae'r drws yn cael ei gloi am 10 o'r gloch.

The door is locked at 10 o'clock.

Gwahoddwyd y teulu i'r cyngerdd.

The family was invited to the concert.

Dywedwyd wrtho am droi i'r dde ar y groesffordd.

He was told to turn right at the crossroads.

Gwerthir y papur lleol yma.

The local paper is sold here.

Ni chwblhawyd y gwaith ar y ffordd newydd.

The work on the new road was not completed.

Mae'r bin sbwriel yn cael ei wagio pan fydd yn llawn.

The rubbish bin is emptied when it is full.

Dewiswyd amrywiaeth o luniau ar gyfer yr arddangosfa.

A variety of pictures were chosen for the exhibition.

Daethpwyd o hyd i'r fodrwy aur yn y cae.

The gold ring was found in the field.

Cafodd y digwyddiad ei ymchwilio gan yr heddlu.

The incident was investigated by the police.

Dywedwyd wrth y gweithwyr am atgyweirio'r to.

The workmen were told to repair the roof.

Cesglir tocynnau wrth y drws.

Tickets will be collected at the door.

Gwelir gwartheg ar y bryniau yn yr haf.

Cattle are seen on the hills in the summer.

A ofynnwyd i chi ddod yma?

Were you asked to come here?

A ofynnir iddo gyflwyno'r canlyniadau?

Will he be asked to present the results?

Cafodd y grisiau eu glanhau bob bore.

The stairs were cleaned every morning.

Adroddwyd bod y broblem wedi'i datrys.


It was reported that the problem had been solved.

Aethpwyd â'r ymwelwyr i'w hastafelloedd.

The visitors were taken to their rooms.

Ces i fy nghyngħori peidio â cherdded trwy ganol y dref.

I was advised not to walk through the town centre.



Article: Kier Hardie

Mae James Keir Hardie yn cael ei gofio fel arweinydd cyntaf y Blaid Lafur.

James Keir Hardie is remembered as the first leader of the Labour Party.

Yn wreiddiol o'r Alban, fe gafodd ef gysylltiad agos â de Cymru.

Originally from Scotland, he had a close connection with south Wales.

Roedd e'n Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful.

He was the Member of Parliament for Merthyr Tydfil.

Dechreuodd Keir Hardie weithio fel glöwr pan oedd un ar ddeg oed, gan dreulio deuddeg awr y dydd i lawr yn y pwll.

Keir Hardie started working as a miner when he was eleven, spending twelve hours a day down the mine.

Dysgodd ei hun i ddarllen ac ysgrifennu.

He taught himself to read and write.

Dechreuodd ei yrfa mewn gwleidyddiaeth gan sefydlu undeb gweithwyr yn ei bwll glo.

He began his career in politics by establishing a workers' union in his coal mine.

Roedd gweithwyr yn ceisio gwella eu cyflog a'u hamodau gwaith.

Workers were trying to improve their wages and working conditions.

Ym 1881 arweiniodd streic y glowyr cyntaf, a chafodd ei ddiswyddo o ganlyniad.

In 1881 he led the first miners' strike, and was dismissed as a result.

Etholwyd Keir Hardie yn Aelod Seneddol West Ham yn Llundain ym 1892.

Keir Hardie was elected Member of Parliament for West Ham in London in 1892.

Ymladdodd dros hawlau menywod, addysg am ddim, pensiynau, a hunanreolaeth i India.

He fought for women's rights, free education, pensions, and self-rule for India.

Collodd ei sedd yn yr etholiad nesaf, ond cafodd ei ailethol yn Aelod Seneddol Merthyr Tudful ym 1900.

He lost his seat at the next election, but was re-elected Member of Parliament for Merthyr Tydfil in 1900.

Etholwyd Keir Hardie fel arweinydd y Blaid Lafur newydd wedi ei ffurfio yn Nhŷ'r Cyffredin.

Keir Hardie was elected as leader of the newly formed Labour Party in the House of Commons.

Erbyn 1910, roedd pedwar deg o Aelodau Llafur wedi'u hethol i'r Senedd.

By 1910, forty Labour Members had been elected to Parliament.

Arweiniodd Hardie protest yn Nhŷ'r Cyffredin yn erbyn triniaeth greulon swffragetaid yng Ngharchar Holloway.

Hardie led a protest in the House of Commons against the cruel treatment of suffragettes at Holloway Prison.

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, roedd Keir Hardie yn heddychwyr brwd.

At the start of the First World War, Keir Hardie was a fervent pacifist.

Parhaodd y Blaid Lafur gyda gwaith Kier Hardie, gan gefnogi hawliau gweithwyr yn y pyllau glo, ffatrioedd a diwydiannau eraill.

The Labour Party continued with the work of Kier Hardie, supporting the rights of workers in the coal mines, factories and other industries.

Speaking and writing challenge

What issue, or issues, do you think that politicians should focus on as a priority?

Example article:

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae datrys problemau yn y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yn flaenoriaeth.

Nid oes gan ysbytai ddigon o welyau i dderbyn cleifion sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys.

Efallai y bydd yn rhaid i gleifion aros am oriau mewn ambiwlansys neu mewn corridorau.

Prif achos y prinder gwelyau yw na all cleifion sy'n ddigon iach iadael yr ysbyty wneud hynny.

Mae hyn oherwydd diffyg cyfleusterau gofal cymdeithasol yn eu cartrefi yn y gymuned neu mewn cartrefi preswyl.

Rhaid rhoi mwy o arian ac adnoddau i ofal cymdeithasol.

Mae gan staff mewn ysbytai, canolfannau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans lwyth gwaith rhy fawr, ac yn teimlo bod cyflogau'n rhy isel.

O ganlyniad, maent yn trefnu cyfres o streiciau.

Mae cyflogau isel yn achosi i staff iadael y GIG, sy'n rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y rhai sy'n aros.

Mae'n anodd reciwtio staff newydd pan fo cyflogau'n isel a'r llwyth gwaith yn drwm iawn.

Rhaid dod o hyd i fwy o arian i gynyddu cyflogau staff y GIG.

Story



Mae Aled a Hugh yn aelodau o dîm rygbi'r pentref.

Aled and Hugh are members of the village rugby team.

Maen nhw'n cadw'n heini trwy hyfforddi bob wythnos.

They keep fit by training every week.

Un diwrnod, roedd Aled yn darllen papur newydd a gweleodd hysbyseb gan gwmni teledu.

One day, Aled was reading a newspaper and saw an advertisement by a television company.

Roedden nhw eisiau timau o ddau gystadleuydd ar gyfer sioe gêm yn seiliedig ar hyfforddiant y fyddin.

They wanted teams of two competitors for a game show based on army training.

Byddai'n rhaid i'r timau rasio ar draws ardal anghysbell yng nghanol Cymru, gan gyflawni heriau ar hyd y ffordd.

The teams would have to race across a remote area of mid Wales, carrying out challenges along the way.

'Fe allwn ni wneud hyn, Hugh', meddai Aled yn y dafarn y noson honno.

'We can do this, Hugh', said Aled in the pub that evening.

Fe wnaethant ceisio, ac ychydig fisoeedd yn ddiweddarach ffeindiodd eu hunain yn yr hen blasty a oedd yn bencadlys i'r criw ffilmio.

They applied, and a few months later found themselves at the old mansion which was the headquarters for the film crew.

'Byddwch yn cael eich gollwng ar ben mynydd, ac wedyn dilynwch y llwybr a ddangosir ar eich mapiau'.

'You will be dropped on a mountain top, then follow the route shown on your maps'.

'Nid ar barasiwt!' meddai un cystadleuydd.

'Not by parachute!' said one competitor.

'Na, mae gennyn ni hofrennydd'.

'No, we have a helicopter'.

Aled a Hugh oedd yr ail o'r pedwar tîm i gael eu cludo i'r man cychwyn.

Aled and Hugh were the second of the four teams to be taken to the start point.

Fe ddaethon nhw o hyd i'w ffordd i lawr o'r mynydd i'r rheolfan cyntaf yn y goedwig.

They found their way down from the mountain to the first check point in the forest.

Yma roedd yn rhaid iddynt ddringo ysgol raff i ben coeden ofnadwy o uchel, yna croesi pont raff i goeden arall.

Here they had to climb a rope ladder to the top of a horribly high tree, then cross a rope bridge to another tree.

'Wel, roedd hynny'n ddychrynllyd' meddai Aled.

'Well, that was terrifying' said Aled.

Fe wnaethant redeg ymlaen trwy'r goedwig i gyrraedd yr ail reolfan wrth llyn.

They ran on through the forest to reach the second check point at a lake.

Yma roedd yn rhaid iddyn nhw adeiladu rafft allan o ddrymiau olew a phadlo ar draws y llyn.

Here they had to build a raft out of oil drums and paddle across the lake.

Fe wnaethant barhau trwy'r goedwig, ond dechreuodd lawio'n drwm a daethon nhw'n flinedig ac yn araf.

They continued through the forest, but it began to rain heavily and they became tired and slow.

O'r diwedd fe gyrhaeddon nhw'r trydydd rheolfan mewn hen wersyll y fyddin.

They finally reached the third checkpoint at an old army camp.

Yna bu'n rhaid iddynt ddod o hyd i'w ffordd trwy ddrysfa o dwneli tanddaearol a adeiladwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

They then had to find their way through a maze of underground tunnels which had been built during the Second World War.

Nawr roedd angen iddyn nhw gyrraedd y diwedd yn y plasty.

They now needed to reach the finish at the mansion.

Pan gyrhaeddon nhw, gwelon nhw fod y timau eraill yno eisoes.

When they arrived, they saw that the other teams were already there.

'Rwy'n dyfalu na wnaethon ni ennill', meddai Aled.


'I guess that we didn't win', said Aled.

'Na, ond ni fydd angen i ni wneud unrhyw hyfforddiant ffitrwydd cyn gêm rygbi y penwythnos nesaf'.

'No, but we won't need to do any fitness training before next weekend's rugby game'.

Use of Welsh: Four Waterfalls Walk

A leaflet is being prepared to guide visitors on a walk to a series of waterfalls in the Brecon Beacons National Park. On the web page you are invited to translate the leaflet into Welsh.



Ar ôl cyrraedd y maes parcio yng Nghwm Porth, cymerwch y llwybr troed sy'n disgyn i Borth yr Ogof.

After arriving at the car park at Cwm Porth, take the footpath which descends to Porth yr Ogof.

Yma mae Afon Mellte yn mynd i mewn i gyfres o geudyllau ac yn lloifo o dan y ddaear am chwarter milltir.

Here the River Mellte enters a series of caverns and flows underground for quarter of a mile.

Dychwelwch yn ôl i'r maes parcio a chroesi'r ffordd i ymuno â llwybr troed ar hyd y dyffryn calchfaen sych a oedd unwaith yn gwrs yr afon.

Return to the car park and cross the road to join a footpath along the dry limestone valley which was once the course of the river.

Byddwch yn pasio twll mawr yn y ddaear gyda ffens o'i gwmpas.

You will pass a large hole in the ground with a fence around it.

Mae hyn yn arwain i lawr i'r afon yn yr ogof islaw.

This leads down to the river in the cave below.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr i'r man lle mae'r afon yn dod allan o'i llwybr tanddaearol.

Continue along the path to the place where the river emerges from its underground route.

Croeswch i'r ddôl laswelltog ar y dde i ddilyn yr afon.

Cross into the grassy meadow on the right to follow the river.

Trowch i ffwrdd i'r dde yn y coetir i weld Sgwd y Pannwr, rhaeadr lydan drawiadol.

Turn off right in the woodland to see Sgwd y Pannwr, an impressive wide waterfall.

Dilynwch y llwybr garw i fyny'r afon i Sgwd Isaf Clun-gwyn.

Follow the rough path upstream to Sgwd Isaf Clun-gwyn.

Mewn rhai mannau mae'r llwybr yn cynnwys dringo dros greigiau heb lwybr amlwg.

In some places the route involves climbing over rocks with no obvious path.

Dychwelwch ar hyd yr un llwybr i Sgwd y Pannwr.

Return along the same path to Sgwd y Pannwr.

Parhewch i lawr yr afon nes i chi gyrraedd llwybr sy'n disgyn i'r ceunant dwfn trwy gyfres hir o risiau.

Continue downstream until you reach a path which descends into the deep ravine by a long series of steps.

Wrth lan yr afon, dringwch dros y creigiau i gyrraedd rhaeadr ysblennydd Sgwd yr Eira.

At the river bank, climb over the rocks to reach the spectacular waterfall of Sgwd yr Eira.

Mae llwybr yn rhedeg ar hyd wyneb y clogwyn y tu ôl i'r rhaeadr.

A path runs along the cliff face behind the waterfall.

Gallwch sefyll y tu ôl i'r llen o ddŵr sy'n disgyn dros y rhaeadr.

You can stand behind the curtain of water which is falling over the waterfall.

Dychwelwch yn ôl i'r maes parcio ar hyd y llwybr uniongyrchol.

Return to the car park along the direct path.

Description



- Pa fath o drêñ ydy hwn?
- Ydy'r teithwyr ar y trêñ yn annog y rhedwyr?
- Pa mor hawdd yw rhedeg ar hyd y llwybr wrth ochr y trac?
- Ydy'n bosibl i'r rhedwyr fynd yn gyflymach na'r trêñ?

Understanding Welsh

Y Cymro dreuliodd ei fywyd yn helpu carcharorion

Mab i weinidog oedd Merfyn Turner a bu'n byw mewn gwahanol ardaloedd o Gymru oherwydd gwaith ei dad, cyn iddo adael cartref, mynd i'r coleg a dechrau gweithio yn Llundain.

Pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd fe wrthododd ymuno â'r fyddin oherwydd ei ddaliadau heddychol a chafodd ei ddedfrydu i dri mis o lafur caled yng ngharchar Abertawe - profiad fyddai'n newid ei fywyd.

Ar ddiwedd y rhyfel, ar ôl cyfnodau fel gweithiwr cymdeithasol yn Tiger Bay a gweithio gyda phobl ddigartref yn Llundain, dechreuodd ymweld â charcharorion yn Pentonville.

O'i brofiad personol roedd e wedi gweld bod bod yn y carchar yn dadbersonoli'r unigolyn, oedd yn ei sgil yn achosi lot o broblemau i rywun unwaith oedden nhw wedi gadael y carchar, i'r graddau bod bywyd tu allan i'r carchar yn anodd iawn ac yn arwain pobl yn aml iawn i ddilyn yr un patrwm a dychwelyd i'r carchar yn eitha` buan.

Roedd Merfyn Turner yn dadlau bod angen newid holl ethos y system gosb ac yn beirniadu'r diffyg cymorth i garcharorion oedd yn cael eu rhyddhau, yn enwedig o ystyried bod canran uchel o'r bobl oedd yn aildroseddu yn ddigartref.

Dadl Merfyn Turner ac eraill oedd bod angen creu llefy safonol oedd yn ddiogel ac yn lân a fyddai hefyd yn noddfa i roi cefnogaeth i gyn-garcharorion.

Gyda chymorth elusen, yn 1954 fe agorodd Norman House yn Llundain - y tŷ hanner ffordd cyntaf ym Mhrydain. Roedd carcharorion yn cael eu gyrru yno ar ôl eu rhyddhau ac yn byw mewn criw bychan o hyd at 15 mewn awyrgylch teuluol - gyda Merfyn Turner yn 'ben teulu'.

Oherwydd llwyddiant y tŷ, fe gafodd canolfannau ar draws Prydain eu modelu ar Norman House ac fe agorodd Merfyn Turner ail dŷ yn 1962 lle'r oedd y preswylwyr yn cael mwy o gyfrifoldebau.

Doedd pobl ddim yn gweld o fel gweithiwr cymdeithasol dosbarth canol arferol roedd yn cael ei dderbyn fel un ohonyн nhw mewn ffordd.

Dros y degawdau, gyda newid gwleidyddol, fe symudodd y pwyslais i ffwrdd o ganolfannau fel Norman House a thuag at garchardai mwy a chosbau llymach.

Mae'n bwysig cofio'r dyn, fu farw yn 1991 yn 75 oed, mewn cyfnod pan mai sefydliadau enfawr fel Carchar y Berwyn sy'n cael eu hadeiladu.

What was the occupation of Merfyn Turner's father?

Roedd tad Merfyn Turner yn weinidog mewn capel.

What happened to Merfyn Turner during the Second World War?

Fe'i hanfonwyd i'r carchar oherwydd ei fod yn wrthwynebwr cydwybodol a gwrthododd ymuno â'r fyddin.

What work did Merfyn Turner do after the war ended?

Roedd yn weithiwr cymdeithasol yn yr ardal o amgylch dociau Caerdydd, yna aeth i weithio gyda phobl ddigartref yn Llundain.

What were his reasons for wanting to help ex-prisoners?

Roedd yn gwybod o'i brofiad ei hun fod carcharorion yn wynebu llawer o broblemau pan gawsant eu rhyddhau, a byddai'n hawdd cyflawni troseddau eto a dychwelyd i'r carchar.

What did Norman House provide for ex-prisoners?

Roedd Norman House yn caniatáu i gyn-garcharorion fyw mewn grŵp bach fel teulu arferol.

What is the current policy of the Government in sentencing offenders?

Mae'r Llywodraeth yn dilyn polisi o anfon mwy o bobl i'r carchar a rhoi dedfrydau llymach.


Two Welsh prisons are mentioned in the article, Swansea and Berwyn. How are they different?

Mae Abertawe yn hen garchar a adeiladwyd cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae Berwyn yn garchar newydd enfawr a agorodd yn ddiweddar.

Story board

Ffestiniog hydro-electric scheme

1: The Ffestiniog hydro-electric scheme is designed to store energy. It does this by pumping water from a lower reservoir to an upper reservoir at times when unused electricity is available. At times of high demand, electricity can be generated by letting water flow back to the lower reservoir.



Mae cynllun trydan dŵr Ffestiniog wedi ei gynllunio i storio ynni. Mae'n gwneud hyn trwy bwmpio dŵr o gronfa isaf i gronfa uchaf ar adegau pan fo trydan heb ei ddefnyddio ar gael. Ar adegau o alw mawr, gellir cynhyrchu trydan trwy adael i ddŵr llifo yn ôl i'r gronfa isaf.


2: The lower reservoir is Llyn Ystradau, made deeper by building a dam across the river that flows out from it.

Llyn Ystradau yw'r gronfa ddŵr isaf, gwneud yn ddyfnach trwy adeiladu argae ar draws yr afon sydd yn llifo allan ohono.



3: The upper reservoir is Llyn Stwlan, which has a much larger dam.

Y gronfa ddŵr uchaf yw Llyn Stwlan, sydd ag argae llawer mwy.



4: The power station is built on the shore of the lower lake.

Mae'r orsaf bŵer wedi'i hadeiladu ar lan y llyn isaf.



5: In the power station are the four large machines which can either pump water or generate electricity.

Yn yr orsaf bŵer mae'r pedwar peiriant mawr a all naill ai bwmpio dŵr neu gynhyrchu trydan.



6: Each machine contains a rotating electrical coil, which we see here being removed for maintenance. The electrical coils are attached to turbines in the huge pipes connecting the lower and upper reservoirs.

Mae pob peiriant yn cynnwys coil trydanol cylchdroi, a welwn ni yma yn cael ei dynnu ar gyfer cynnal a chadw. Mae'r coiliau trydanol wedi'u glynw wrth dyrbinau yn y pibellau enfawr sy'n cysylltu'r cronfeydd dŵr isaf ac uchaf.



12 Aberystwyth

Language notes

Using prepositions before a verb

It is sometimes necessary to add to the meaning of a verb by placing a preposition before it. Examples are:

Mae'r teulu ar cychwyn ar eu gwyliau.

The family about to set off for their holiday.

Roedd e ar siarad pan canodd y ffôn.

He was about to speak when the phone rang.

'ar' indicates that the action is or was about to occur.

Rydyn ni am brynu dodrefn newydd.

We want to buy new furniture.

'am' indicates an intention to do something.

Mae e heb obaith am ganlyniad yr arholiad.

He has no hope for the result of the exam.

'heb' indicates that the action will not occur.

Rwyt ti i fynd i'r dref y prynhawn.

You are to go to the town this afternoon.

'i' indicates that the action is expected to occur.

Using a series of verbs in a sentence

It is sometimes the case that a series of actions take place in the same sentence, for example:

Aethon ni i'r dref, prynon fwydydd, a chwrddon â'n ffrindiau.

We went to town, bought groceries, and met our friends.

In this case, the past tense has been used for each of the verbs. However, it is perfectly acceptable to use only verb nouns where the verb tense is clearly indicated by the context of the sentence:

Aethon ni i'r dre, prynu bwydydd, a chwrdd â'n ffrindiau.

This usage applies also to long form (cwmpasog) verb tenses:

Mae e wedi atgyweirio'r drws, wedi paentio'r ffenestri a wedi newid y ffens.

He has repaired the door, painted the windows and replaced the fence.

can be written more concisely as:

Mae e wedi atgyweirio'r drws, paentio'r ffenestri a newid y ffens.

It is also possible to use this pattern for a series of commands:

Datglowch y drws, edrych am y switsh a throi'r golau ymlaen.

Unlock the door, look for the switch and turn on the light.

Treigladau

We will continue our review of the **treiglad meddal**, this time focussing on its use to indicate different components of a sentence.

Sentences generally have three components:

- The VERB which specifies an action.
- The SUBJECT which carries out the action specified by the verb.
- The COMPLEMENT which forms the remainder of the sentence.

For example:

Torrodd y ffermwr ar ei dractor rych hir syth ar draws y cae.

The farmer on his tractor cut a long straight furrow across the field.

We will try to explain why a treiglad meddal has been applied to the word '**rhych**' (furrow).

The specified action is '**cut**', so this is the VERB.

The action is carried out by '**the farmer on his tractor**', so this is the SUBJECT.

The remainder of the sentence, '**a long straight furrow across the field**', is the COMPLEMENT.

In Welsh, the normal sentence order is VERB - SUBJECT - COMPLEMENT.

Perhaps the most important treiglad rule in Welsh is that a **treiglad meddal** is applied immediately after the subject, at the start of the complement. This explains the treiglad on the word '**rhych**' in the example above.

Consider another example:

Bwy todd buwch wair yn yr iard.	gwair
A cow ate hay in the yard.	

The structure and meaning of a sentence may not be immediately clear. The treiglad meddal applied to the word '**gwair**' emphasises that '**cow**' is the subject which does the eating, and '**hay in the yard**' is the complement.

It is, of course, often the case that a treiglad meddal cannot be applied at the start of the complement. For example:

Cariodd yr adeiladwr y llechi i'r to.	
The builder carried the slates to the roof.	

The subject of this sentence is '**yr adeiladwr**', who does the carrying. The compliment '**y llechi i'r to**' begins with a letter 'y' which does not take a treiglad meddal.

The rule requiring a treiglad after the subject is applied using common sense, rather than by following grammatical rules too precisely. For example:

Mae'n rhaid i Dafydd werthu ei gar.	gwerthu
Dafydd has to sell his car.	

'**Dafydd**' is not strictly the subject of the verb '**mae**', but it is clear from the meaning of the sentence that he is doing the selling. A treiglad meddal is therefore applied after '**Dafydd**'.

Commands represent a special case. Consider the sentence:

Ffoniwch feddyg ar unwaith!	meddyg
Phone a doctor immediately!	

There is no subject present in the sentence, but it is understood that the subject is '**you**'.

Using the normal Welsh word order, the sentence becomes:

Ffoniwch (chi) feddyg ar unwaith!

and a treglad meddal is applied to the complement which follows '**chi**'.

The treiglad rule applies in the normal way when a verb noun is used with 'gwneud' to create a cwmpasog tense. For example:

Wnaeth Sioned dorri'r deunydd i wneud y llenni.

torri

Sioned cut the material to make the curtains.

A treiglad meddal is applied immediately after the subject 'Sioned'.

The verb '**bod**' is unusual in adding the marker '**yn**' in certain cases. This happens when a verb noun is used to create a cwmpasog tense. For example:

Roedden ni'n gwylia'r ras.

We were watching the race.

The subject of the sentence is '**ni**'. A treiglad meddal is not applied to the verb noun which follows '**yn**'.

The verb '**bod**' also adds '**yn**' when the subject is followed by a noun or adjective, as in the sentences:

Mae'r bws yn brysur heddiw.

prysur

The bus is busy today.

Mae ein cymydog yn wyddonydd.

gwyddonydd

Our neighbour is a scientist.

In contrast to the case of verb nouns, a teiglad meddal is applied to the noun or adjective following '**yn**'.

In other cases where the subject of a '**bod**' verb is followed by a word other than a verb noun, noun or adjective, then the marker '**yn**' is not added:

Mae'r tŷ wrth ochr y llyn.

The house is beside the lake.

Idioms

There are two different '**yn**' words in Welsh:

'**yn**' is used grammatically in various sentence constructions and has no direct English translation. For example, with long form tenses of '**bod**':

Maen nhw wedi bod yn rhedeg ar hyd y traeth.

They have been running along the beach.

'**yn**' is also used as a preposition with the meaning 'in':

Mae yna bobl yn yr ardd.

There are people in the garden.

There are many common phrases and idioms which include one or other form of '**yn**':

beth yn y byd - what on earth

Beth yn y byd a ddywedodd wrth Mrs Jones?

What on earth did he say to Mrs Jones?

yn agored - open

Bydd yr amgueddfa yn agored ar y penwythnos.

The museum will be open at the weekend.

yn ei anterth - at its height

Mae'r gwaith ar y ffordd newydd ar ei anterth.

The work on the new road is at its height.

yn blith draphlith - all over the place

Roedd pethau wedi cael eu storio yn blith draphlith yn y sied.

Things had been stored all over the place in the shed.

yn fy marn i - in my opinion

Yn fy marn i dylai mwy o bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

In my opinion more people should use public transport.

yn ei hanner - in half

Gollyngodd y cwan a thorrodd yn ei hanner.

He dropped the cup and it broke in half.

yn llawn dop - full to capacity

Mae'r dafarn yn llawn dop heno.

The pub is bursting tonight.

yn sgil - following, after

Yn sgil llwyddiant ei nofel gyntaf, mae hi wedi cychwyn un arall.

Following the success of her first novel, she has begun another.

yn lle - in place of

Fe ddefnyddion ni frics yn lle cerrig i adeiladu'r wal.

We used brick in place of stone to build the wall.

Sentences

Prynnodd ei char newydd yn y garej.

She bought her new car at the garage.

Es i i'r siop, dewis anrheg a thalu amdani.

I went to the shop, chose a present and paid for it.

Mae yn ein tŷ ni, nid yn eu tŷ nhw.

It is in our house, not in their house.

Mae angen i ti orffen dy waith cartref rŵan.

You need to finish your homework now.

Mae ein tîm heb obaith o ennill y cwan.

Our team has no hope of winning the cup.

Ble ydyn nhw'n mynd gyda'u ffrindiau?

Where are they going with their friends?

Sefwch i fyny, darllen eich adroddiad ac ateb cwestiynau.

Stand up, read your report and answer questions.

Gawsoch chi win gyda'ch pryd o fwyd?
Did you have wine with your meal?
Rydw i'n prynu fy llysiau yn eu siop.
I buy my vegetables at their shop.
Mae'n gallu teithio ddydd Sadwrn gyda'i docyn tymor.
He can travel on Saturday with his season ticket.
Bydd y siop newydd yn agor yn fuan.
The new shop will be opening soon.
Dyweddodd hi fod eich car y tu allan eu tŷ.
She said that your car was outside their house.
Clywais am ei ddamwain gan fy mrawd.
I heard about his accident from my brother.
Mae hi'n mynd i baentio ei chegin yr wythnos nesaf.
She is going to paint her kitchen next week.
Dw i ddim wedi gweld ei lythyr yn y papur newydd, ond gwelais eich llythyr chi.
I haven't seen his letter in the newspaper, but I saw your letter.
Dyma'r allwedd i'ch ystafell.
This is the key to your room.
A ddewch chi i'n siop ddydd Mercher?
Will you come to our shop on Wednesday?
Pwy ddywedodd wrthych chi fod ei athro'n sâl?
Who told you that his teacher was ill?
Faint ydyn nhw'n mynd i wario ar eu gwyliau?
How much are they going to spend on their holiday?
Gwnaeth ei galwad ffôn o fy swyddfa.
She made her phone call from my office.



Article: Aberystwyth

Aberystwyth yng Nghanolbarth Cymru yw'r dref fwyaf ar arfordir Gorllewin Cymru.
Aberystwyth in Mid Wales is the largest town on the West Wales coast.
Dros y canrifoedd mae Aberystwyth wedi datblygu mewn nifer o wahanol ffyrdd.
Over the centuries Aberystwyth has developed in a number of different ways.

Ym mhen deheuol y promenâd mae adfeilion castell Aberystwyth, a adeiladwyd gan Edward I i reoli'r Cymry.

At the southern end of the promenade are the ruins of Aberystwyth castle, which was built by Edward I to control the Welsh.

Yna fe'i defnyddiwyd gan Owain Glyndŵr yn ystod y gwrthryfel ym 1404.

It was then used by Owain Glyndŵr during the uprising in 1404.

Aberystwyth yw'r farchnad a chanolfan fasnachol ar gyfer yr ardal ffermio gyfagos.

Aberystwyth is the market and commercial centre for the surrounding farming area.

Dechreuodd y dref fel harbwr pysgota a phorthladd bach.

The town began as a fishing harbour and small port.

Allforiwyd mwyn plwm o'r porthladd.

Lead ore was exported from the port.

Cynyddodd y fasnach hon pan adeiladwyd rheilffordd Dyffryn Rheidal ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

This trade increased when the Vale of Rheidol railway was built at the end of the nineteenth century.

Cysylltodd y rheilffordd gul y porthladd gyda'r ardal o fwyngloddiau plwm o amgylch Pont ar Fynach.

The narrow gauge railway connected the port with the area of lead mines around Devil's Bridge.

Bellach mae'n cludo ymwelwyr i weld y rhaeadrau ysblennydd ym Mhont ar Fynach.

It now carries visitors to see the spectacular waterfalls at Devil's Bridge.

Roedd cyrhaeddiad y brif reilffordd o Loegr yn oes Fictoria yn caniatáu i Aberystwyth ddatblygu fel cychfan wyliau.

The arrival of the main railway line from England in Victorian times allowed Aberystwyth to develop as a holiday resort.

Mae'r promenâd cain ar lan y môr yn ymestyn o'r pier i bentir Constitution Hill.

The elegant seafront promenade extends from the pier to the headland of Constitution Hill.

Mae gan y pentir serth hwn reilffordd clogwyn, a agorodd ym 1896.

This steep headland has a cliff railway, which opened in 1896.

Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth mewn gwesty crand ar lan y môr.

Aberystwyth University was founded in a grand hotel on the seafront.

Mae'r brifysgol bellach wedi symud i gampws modern mawr.

The university has now moved to a large modern campus.

Gerllaw mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd â'r casgliad mwyaf o lawysgrifau prin yng Nghymru.

Nearby is the National Library of Wales, which has the largest collection of rare manuscripts in Wales.

Mae Aberystwyth yn dal i fod yn gyrchfan wyliau bwysig.

Aberystwyth is still an important holiday destination.

Mae llawer o gerddwyr yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru sy'n croesi Constitution Hill.

Many walkers follow the Wales Coast Path which crosses Constitution Hill.

Mae'r dref wedi datblygu cymuned amlddiwylliannol, ac mae bwyta yn darparu amrywiaeth o fwyd o wahanol gwledydd.

The town has developed a multicultural community, and restaurants provide a variety of food from different countries.


Speaking and writing challenge

Select a coastal town or port, and discuss how it has developed. You might mention: its early beginnings, its development over previous centuries, and its present day functions.

Example article:

Mae Porthmadog yn dref fach a phorthladd yn Eryri, ar arfordir gorllewinol Cymru. Nid oedd Porthmadog yn bodoli tan 1810, pan adeiladodd yr entrepreneur William Madocks arglawdd ar draws aber Afon Glaslyn. Y bwriad oedd adennill llawer iawn o dir yn yr aber y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ffermio. Ar ôl adeiladu'r morglawdd, symudwyd yr afon i lifo i'r môr trwy lifddorau ar ben gorllewinol yr arglawdd. Achosodd hyn i harbwr dwfn ddatblygu, ac adeiladwyd cei yn y fan hon. Adeiladwyd tref Porthmadog ar ddarn o dir a adenillwyd wrth ochr yr harbwr. Gwnaeth adeiladu'r arglawdd, adnabod fel y Cob, darparu llwybr i Reilffordd Ffestiniog ddod â llechi o chwareli Blaenau Ffestiniog i'r porthladd, lle byddai'n cael ei lwytho i longau hwylio i'w hallforio i rannau eraill o Brydain ac o gwmpas y byd. Datblygodd iardiau llongau o gwmpas Porthmadog i adeiladu llongau hwylio ar gyfer y fasnach hon. Dirywiodd pwysigrwydd y porthladd yn hanner olaf y 19eg ganrif gyda dyfodiad y prif reilffyrdd i Blaenau Ffestiniog, gan ganiatáu cludo llechi'n uniongyrchol o amgylch Prydain ar drên. Ar hyn o bryd, mae cychod hwylio yn parhau i ddefnyddio marina ym Mhorthmadog. Mae'r dref yn fwyaf adnabyddus fel un o brif orsafoedd Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, sydd yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Story



Mae amgueddfa'r ddinas yn cynnal arddangosfa dros dro o emwaith brenhinol fel rhan o wyl gelf a chrefft.

The city museum is holding a temporary exhibition of royal jewellery as part of an arts and crafts festival.

Mae'r tlysau ar fenthyg o amgueddfa fawr yn Llundain.

The jewels are on loan from a large museum in London.

Aeth heddwlas lleol i dafarn gyda rhai ffrindiau ar ôl gwaith.

A local policeman went to a pub with some friends after work.

Fe glywodd sgwrs lle roedd gang yn gwneud cynlluniau i dorri i mewn i'r amgueddfa a dwyn y casgliad gemwaith.

He heard a conversation where a gang was making plans to break into the museum and steal the jewellery collection.

Adroddodd y sgwrs i'w gydweithwyr yng ngorsaf yr heddlu.

He reported the conversation to his colleagues at the police station.

Gwnaethon nhw holi cyfarwyddwr yr amgueddfa am y system ddiogelwch.

They questioned the director of the museum about the security system.

Dywedodd bod staff ar ddyletswydd ym mhob oriel pan oedd yr amgueddfa ar agor.

He said that staff were on duty in every gallery when the museum was open.

Yn y nos, gosodwyd larymau ar bob drws a ffenestr ac roedd teledu cylch cyfng yn gweithredu.

At night, alarms were fitted to all doors and windows and closed circuit television was operating.

Roedd yn sicr nad oedd unrhyw risg o ladrad.

He was sure that there was no risk of a robbery.

Serch hynny, roedd yr heddlu'n cymryd y bygythiad o ddifrif ac yn trefnu i swyddogion wylia'r adeilad.

Nevertheless, police took the threat seriously and arranged for officers to watch the building.

Yn ystod y nos, gwelon nhw ffigwr tywyll yn symud yn y cysgodion o gwmpas i gefn yr adeilad.

During the night, they saw a dark figure moving in the shadows around to the back of the building.

Dringodd ysgol lle'r oedd adeiladwyr yn gwneud gwaith ar y to.

He climbed a ladder where builders were doing work on the roof.

Aeth yr heddlu i mewn i'r amgueddfa a symud yn ddistaw trwy'r adeilad tywyll i'r oriel.

The police entered the museum and moved silently through the dark building to the gallery.

Yma fe ddaethon nhw o hyd i leidr yn dod i lawr o ffenestr to ar raff.

Here they found a robber coming down from a roof window on a rope.

Fe wnaethant aros iddo fynd at yr arddangosfa gemwaith, yna neidio arno.

They waited for him to approach the jewellery display, then jumped on him.

Ffoniodd yr heddlu gyfarwyddwr yr amgueddfa i ddweud wrtho am yr ymgais i ladrata.

The police phoned the museum director to tell him about the attempted robbery.


Roedd wedi synnu a dywedodd 'Nid yw hynny'n bosibl - mae ein system ddiogelwch mor berffaith'.

He was astonished and said 'That is not possible - our security system is so perfect'.

Use of Welsh: Trevithick engine

A replica of the world's first steam locomotive is on display in a museum in Swansea.

An information panel for visitors will be displayed alongside the locomotive. On the web page you are invited to translate this into Welsh.



Rhedodd y daith reilffordd gyntaf yn y byd 9 milltir o'r gwaith haearn ym Mhenydarren i Gamlas Merthyr-Caerdydd.

The first railway journey in the world ran 9 miles from the ironworks at Penydarren to the Merthyr-Cardiff Canal.

Yn 1803, daeth Samuel Homfray â Richard Trevithick i'w waith haearn Penydarren ym Merthyr Tudful.

In 1803, Samuel Homfray brought Richard Trevithick to his Penydarren ironworks at Merthyr Tydfil.

Roedd gan Homfray ddiddordeb yn yr injans stêm yr oedd Trevithick wedi'u datblygu.

Homfray was interested in the steam engines that Trevithick had developed.

Anogodd Homfrey fe i adeiladu locomotif i deithio ar hyd y dramffordd o Benydarren i lanfa'r gamlas yn Abercynon.

Homfrey encouraged him to build a locomotive to travel along the tramroad from Penydarren to the canal wharf at Abercynon.

Dechreuodd Trevithick weithio ar y locomotif ac erbyn mis Chwefror 1804 roedd wedi'i gwblhau.

Trevithick started work on the locomotive and by February 1804 it was completed.

Roedd Richard Crawshay, perchennog gwaith haearn Cyfarthfa gerllaw, yn sicr na fyddai'r injan yn llwyddiannus.

Richard Crawshay, owner of the nearby Cyfarthfa ironworks, was sure that the engine would not be successful.

Fe wnaeth Crawshay betio 500 gini na allai'r injan dynnu deg tunnell o haearn i Abercynon, a thynnu'r wagenni gwag yn ôl.

Crawshay bet 500 guineas that the engine could not haul ten tons of iron to Abercynon, and haul the empty wagons back.

Roedd y rhediad cyntaf ar 21 Chwefror, a thynnodd yr injan ddeg tunnell o haearn mewn pum wagen, gyda saith deg o ddynion yn reidio arny'n nhw am y daith gyfan.

The first run was on 21 February, and the engine pulled ten tons of iron in five wagons, with seventy men riding on them for the whole of the journey.

Aeth yr injan bron i bum milltir yr awr.

The engine went nearly five miles an hour.

Yn anffodus, ar y daith yn ôl torrodd bolll a bu'n rhaid gwneud atgyweiriadau.

Unfortunately, on the return journey a bolt broke and repairs had to be carried out.

Ni chyrhaeddodd yr injan yn ôl i Benydarren tan y diwrnod canlynol.

The engine did not get back to Penydarren until the following day.

Rhoddodd hyn reswm i Crawshay honni nad oedd y rhediad wedi'i gwblhau.

This gave Crawshay reason to claim that the run had not been completed.

Yn anffodus roedd yr injan yn rhy drwm ar gyfer y cledrau.

Unfortunately the engine was too heavy for the rails.

Fe'i cymerwyd allan o wasanaeth a'i defnyddio i yrru morthwyl gefail yng ngwaith Penydarren.

It was taken out of service and used to drive a forge hammer at the Penydarren works. Gallwn ddweud, er hynny, mai Richard Trevithick oedd tad y rheilffyrdd.

We can, however, say that Richard Trevithick was the father of the railways.

Description



- Sut fyddch chi'n disgrifio'r ardal o amgylch y tŷ?
- A yw'r bobl yn y tŷ yn tyfu unrhyw fwyd eu hunain?
- Oes ganddyn nhw deledu yn y tŷ?
- Oes ganddyn nhw gar sy'n addas ar gyfer y cefn gwlad?
- Ydyn nhw'n bwyta yn yr awyr agored weithiau?

Understanding Welsh

Gobeithio denu mwy o ymwelwyr i Ogof Twm Siôn Cati drwy osod arwyddion newydd ger y safle ym Mlaenau Tywi

Mae Cyngor Sir Gâr yn gobeithio denu mwy o ymwelwyr i Ogof Twm Siôn Cati ym Mlaenau Tywi drwy osod arwyddion newydd ger y safle.

Mae'r llwybr sy'n arwain at yr ogof yn uchel ym mryniau coedig Rhandir-mwyn wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar.

Cymeriad gwylt a direidus oedd Twm Siôn Cati, yn ôl chwedloniaeth, ac roedd yn aml yn cuddio ar ôl drygioni ar draul y pendefigion a phobol gyfoethog – gweithredoedd sydd wedi arwain at ei enw fel y ‘Robin Hood’ Cymreig.

Roedd yn Protestant pybyr ac am y rheswm hwnnw y bu’n rhaid iddo ffoi i Genefa rhag cael ei erlyn gan y Frenhines Mary. Ond fe gafodd e faddeuant yn ddiweddarach gan Elizabeth y Cyntaf.

Yn ddiweddarach yn ei fywyd, fe wnaeth e droi at farddoniaeth, ac fe briododd â Joan, gweddw gyfoethog oedd yn byw ger yr Ogof ar fferm Ystrad-ffin.

Fe fu’r ogof yn boblogaidd ar un adeg, gan ddenu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn, ac fe gafodd dwsinau o’u henwau eu cerfio yng nghraig yr ogof, a’r cyntaf o’r rhai gweladwy yn dyddio o’r ddeunawfed ganrif.

Roedd yn drueni fod llawer o’r bobl sy’n heidio bob blwyddyn i Randir-mwyn i weld cronfa ddŵr Llyn Brianne a’r barcud ddim yn gwybod am Twm Siôn Cati a’i ogof.

Who was Twm Siôn Cati?

Lleidr oedd Twm Siôn Catti a wnaeth dwyn oddi wrth pobl fonheddig a phobl gyfoethog, yna rhoddodd arian i’r tlodion. Enillodd enw da fel ‘Robin Hood o Gymru’.

Why did Twm Siôn Cati go to Geneva?

Protestant oedd Twm Siôn Catti. Aeth dramor i ddianc rhag erledigaeth grefyddol gan y Frenhines Gatholig Mary.

What did Twm Siôn Cati do when he returned to Wales?

Daeth Twm Siôn Catti yn fardd, a phriododd weddw gyfoethog Joan a oedd â fferm ger Rhandirmwyn.

What evidence is there that Victorian travellers went to Twm Siôn Cati’s cave?

Mae enwau wedi’u cerfio yng nghraig yr ogof, ac mae’r cynharaf o’r rhain yn dyddio’n ôl i oes Fictoria.

Why do tourists now visit this area of mid Wales?

Mae twristiaid yn ymweld â’r ardal hon o ganol Cymru i weld cronfa ddŵr ac argae Llyn Brianne, ac i weld adar barcud sydd wedi’u haislefylu yn yr ardal ar ôl dod yn brin iawn.

How are tourists being encouraged to visit Twm Siôn Cati’s cave?

Mae’r Cyngor Sir wedi atgyweirio’r llwybr troed ac yn gosod arwyddion i ddangos y ffordd i’r ogof.

Story board

Another layer consists of 'epiphytes'.

Mae'r rhain yn blanhigion fel mwsoglau, cennau a rhedyn a all dyfu ar foncyffion a changhennau coed.

These are plants such as mosses, lichens and ferns which can grow on the trunks and branches of trees.


Mae'r rhywogaethau coed brodorol fel derw yn datblygu systemau gwreiddiau ymestynol iawn.

The native tree species such as oak develop very extensive root systems.

Mae'r rhain yn cynnal y coed ar lethrau creigio serth gyda phridd tenau.

These support the trees on steep rocky hillsides with thin soil.

Description



- Peintiwyd y llun 'Cardiff Docks' (olew ar gynfas) gan Lionel Walden ym 1896. Mae'r llun yn y Musee d'Orsay, Paris heddiw. A yw hyn yn debygol o fod yn ddarlun cywir o'r dociau ar y pryd?
- Mae'r wagenni yn cario glo. O ble maen nhw wedi dod?
- Pa fathau o long sydd yn defnyddio'r porthladd?
- Defnyddir y tyrau ar ochr y cei i lwytho'r llongau. Sut mae'r rhain yn gweithio?
- Oedd gweithio ar y dociau yr adeg hon yn brofiad peryglus?

Understanding Welsh

Yr Wladfa

Ardal yn nhalaith Chubut, Patagonia, yr Ariannin lle ymfudodd llawer o Gymry yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r Wladfa. Mae cymunedau Cymreig mewn gwledydd eraill hefyd, megis Pennsylvania yn yr Unol Dalaithiau, ond mae'r diwylliant a'r iaith Gymraeg yn amlycaf yn y Wladfa.

Craidd yr Wladfa yw Dyffryn Camwy, tua 60 km i'r de o Borth Madryn. Y prif drefi yw Rawson, prifddinas y dalaith, Gaiman sef y dref fwyaf Cymreig yn yr ardal, a Threlew. Tua 500 milltir i'r gorllewin o Dyffryn Camwy, yng Nghwm Hyfryd wrth draed yr Andes yw Esquel a Threvelin, dwy dref arall a sefydlwyd gan y Cymry.

Heddiw, mae tua 150,000 o bobl yn byw yn yr ardal a thua hanner ohonynt yn ddisgynyddion i'r Cymry. Mae tua 5,000 yn siarad Cymraeg a channoedd yn dysgu'r iaith.

Yn y flwyddyn 1865 hwylodd dros gant a hanner o Gymry, yn wyr, gwragedd a phlant, o Lerwel i wlad newydd ddiffaith yn Ne America. Rhan o batrwm ymfudo mawr y ganrif ddiwethaf oedd hwn ac aethant yno i osgoi tlodi. Pobl penderfynol oedd y Cymry hyn a hwylodd ar y llong Mimosa, ac er iddynt gyrraedd gwlad ddiannedd, trwy chwys a llafur llwyddasant i greu yno gymdeithas newydd.

Daeth y Gymru mewn cysylltiad â'r brodorion lleol a ddatblygodd perthynas da. Dysgasant i'r Cymry sut i hela yn null y brodorion, a bu hyn yn gymorth mawr iddynt gael digon i'w fwyta yn y blynnyddoedd cynnar.

Troesant y tir diffaith yn ardal ffermio a'i throsglwyddo i'w disgynyddion sydd hyd heddiw yn byw yn y rhan honno o'r Ariannin a elwir Patagonia. Yn fuan wedi ymsefydlu yno talodd yr ymfudwyr hyn wrogaeth i faner Ariannin ac addo bod yn deyrngar i'w gwlad newydd.

Heddiw, ar ôl dros ganrif a chwarter, cawn bobl nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Chymru yn cyd-ddathlu Gwyl y Glaniad ar Orffennaf 28 bob blwyddyn. Maent yn uno hefyd yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, sef yr Eisteddfod fawr a gynhelir yn Nhrelew, Eisteddfod sydd wedi ei phatrymu ar Eisteddfodau Cymru, a cheir pobl o bob cenedl yn cystadlu ar ganu, adrodd a dawnsio a llu o gystadlaethau eraill.

Mae cerddoriaeth yn rhan bwysig o'u traddodiad. Ym 1987 cafodd Côr y Camwy y drydedd wobr yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Taf-Elai ym 1991 enillodd Côr Plant y Gaiman y wobr gyntaf.

When and why did the group of Welsh settlers emigrate to South America?

Aeth y grŵp i Dde America ym 1865 oherwydd tlodi yng Nghymru.

How did the Welsh settlers reach Patagonia?

Hwyliodd yr ymsefydlwyr o Lerpwl ar long o'r enw'r Mimosa.

In what areas of Patagonia did the Welsh settle?

Ymsefydlodd y Cymry mewn dwy ardal: Dyffryn Camwy ger yr arfordir, a Cwm Hyfryd wrth droed mynyddoedd yr Andes.

Did the Welsh settlers have a good relationship with the local indigenous people?

Roedd perthynas da gyda brodorion lleol a ddysgon nhw'r Cymry sut i hela er mwyn gael digon i fwya yn y blynnyddoedd cynnar ar ôl cyrraedd Patagonia.

Why did the Welsh settlers contact the Argentinian Government?

Aeth yr ymsefydlwyr i Lywodraeth yr Ariannin er mwyn addo bod yn deyrngar i'w gwlad newydd.

Is Welsh culture still important in Patagonia?

Mae miloedd o bobl ym Mhatagonia yn siarad Cymraeg, ac mae'r eisteddfod flynyddol yn ddigwyddiad pwysig gyda chystadlaethau yn cael eu cynnal yn yr iaith Gymraeg.

Do groups from Patagonia make cultural visits to Wales?

Mae corau o'r Wladfa wedi dod i Gymru a chymryd rhan yn Eisteddfod Llangollen ac Eisteddfod yr Urdd.

Story board

The steel industry

1: Port Talbot iron and steel works is the main steelworks in Wales. It uses iron ore and coal to produce molten iron in the blast furnaces. The molten iron is then converted to steel, which is cast into thick slabs or rolled into thin sheet steel.

Gwaith haearn a dur Port Talbot yw prif weithfeydd dur Cymru. Mae'n defnyddio mwyn haearn a glo i gynhyrchu haearn tawdd yn y ffwrneisi chwyth. Yna caiff yr haearn tawdd ei drawsnewid yn ddur, sy'n cael ei gastio fel slabiau trwchus neu ei rolio i ddatennau dur tenau.



2: Historically, the South Wales steel industry has used Welsh coal to make coke for the blast furnaces. There are large reserves of suitable coal near to Port Talbot, but currently most coal used in the plant is imported from Australia as this is cheaper.

Yn y gorffennol, mae diwydiant dur De Cymru wedi defnyddio glo Cymru i wneud golosg ar gyfer y ffwrneisi chwyth. Mae dal llawer o lo addas ger Port Talbot, ond ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o lo a ddefnyddir yn y gwaith dur yn cael ei fewnforio o Awstralia gan fod hwn yn rhatach.

3: Iron ore is imported by ship from countries such as Sweden.

Mae mwyn haearn yn cael ei fewnforio ar long o wledydd fel Sweden.

4: Until the Second World War the largest steelworks in Wales was in Ebbw Vale, where coal was available nearby. The works closed in 2002 and was then demolished.

Hyd at yr Ail Ryfel Byd roedd gwaith dur mwyaf Cymru yng Nglynebw, lle roedd glo ar gael gerllaw. Caeodd y gwaith yn 2002 ac yna cafodd ei ddymchwel.



5: The Ebbw Vale steelworks site was used first as the location for a garden festival, then became a shopping centre. A number of shop units are now empty, so there are plans to develop the site as a business park.

Defnyddiwyd safle gwaith dur Glyn Ebwy yn gyntaf fel lleoliad gŵyl arddio, yna daeth yn ganolfan siopa. Mae nifer o unedau siopau bellach yn wag, felly mae cynlluniau i ddatblygu'r safle fel parc busnes.



6: Several smaller steelworks still operate in North Wales, though others have now closed. At Brymbo near Wrexham, parts of the former steelworks are being preserved as an industrial museum.

Mae nifer o weithfeydd dur llai yn dal i weithredu yng Ngogledd Cymru, er bod eraill bellach wedi cau. Ym Mrymbo ger Wrecsam, mae rhannau o'r hen waith dur yn cael eu cadw fel amgueeddfa ddiwydiannol.



15 Crossing the Severn estuary

Language notes

In this section we will look at some aspects of **questions** and **answers**.

Welsh differs from English in that questions are usually answered with a verb phrase, rather than a single word **yes/no**:

Ydw i'n cywir?	Wyt	Nag wyt
Am I correct?	You are	You are not
Wyt ti'n cywir?	Ydw	Nag ydw
Are you correct?	I am	I am not
Ydy e'n cywir?	Ydy	Nag ydy
Is he correct?	He is	He is not
Ydyn ni'n cywir?	Ydych	Nag ydych
Are we correct?	You are	You are not
Ydych chi'n cywir?	Ydyn	Nag ydyn
Are you correct?	We are	We are not
Ydyn nhw'n cywir?	Ydyn	Nag ydyn
Are they correct?	They are	They are not

A simple yes/no answer can be given when emphasis is needed:

Eich car chi ydy hwn?	Ie	Na
Is this <u>your car</u> ?	<u>Yes</u>	<u>No</u>

For past tenses, questions can again be answered with a verb phrase

Oeddet ti ar y trêñ?	Oeddwn	Nag oeddwn
Were you on the train?	I was	I was not

A simple past tense yes/no answer can also be used:

Aethoch chi i'r dref ddoe?	Do	Naddo
Did you go to the town yesterday?	Yes (I did)	No (I didn't)

The form of answer may depend on the structure of the sentence, for example:

Ydy eich gwraig yn siarad Ffrangeg?	Ydy	Nag ydy
Does your wife speak French?	She does	She does not
Eich gwraig sydd yn siarad Ffrangeg?	Oes	Nag oes
Is it your wife that speaks French? (not someone else)	It is	It is not

For questions relating to the object of the sentence, the present tense oes is used:

Oes pysgod yn y llyn?	Oes	Nag oes
Are there fish (<i>object</i>) in the lake?	There are	There are not

For questions relating to the subject of the sentence, the present tense **ydy** is used:

Ydy'r pysgod yn y llyn?	Ydyn	Nag ydyn
Are the fish (<i>subject</i>) in the lake?	They are	They are not
(rather than somewhere else...)		

Questions can be produced by simply speaking in a questionning manner:

Siaradodd hi yn y cyfarfod?	Did she speak in the meeting?
------------------------------------	-------------------------------

However, the presence of a question can be signalled by placing **A** or **Ai** at the start of the sentence:

Ai eich frindiau ydy'r rheiny?	Are those your friends?
---------------------------------------	-------------------------

The word '**A**' causes a soft mutation:

Bydd cacen i de	There will be cake for tea
A fydd cacen i de?	Will there be cake for tea?

The soft mutation occurs with question forms, even when the '**A**' is imaginary:

Welodd e'r ddamwain?	Did he see the accident?
-----------------------------	--------------------------

A question can be created by making a statement, then adding a question phrase at the end.

For example:

Mae'n oer heddiw, ynte?	It is cold today, isn't it?
--------------------------------	-----------------------------

Questions are often created using the interrogative words:

pwy? (who), **beth?** (what), **Ile?** (where), **pryd?** (when), **pam?** (why),
sut? (how), **pa?** (which), **sawl?** (how many), **faint?** (how many/how much)

Pwy yw'r enillydd?	Who is the winner?
Beth yw'r broblem?	What is the problem?
Pryd mae'r siop ar agor?	When is the shop open?
Pam ydych chi'n gwerthu'r car?	Why are you selling the car?
Sut mae'r llawr yn cael ei lanhau?	How is the floor cleaned?
Pa lyfr ydych chi'n ei ddarllen?	Which book are you reading?
Sawl brawd sydd gennych chi?	How many brothers do you have?
Faint o goed sydd yn yr ardd?	How many trees are in the garden?

Treigladau

In previous sessions we have discussed the wide range of situations in which a **treiglad meddal** is used. Welsh has two other treigladau which are much less common in the spoken and written language. These are the **treiglad llaes** and the **treiglad trwynol**:

The **treiglad llaes** affects only three letters at the start of words:

- p** becomes **ph**
- t** becomes **th**
- c** becomes **ch**

A treiglad llaes occurs after certain words:

The conjunction **a** (and):

Roedd ceir a thacsis y tu allan i'r gwesty.

There were cars and taxis outside the hotel.

The conjunction **â** linked with some verbs:

Siaradon ni â chyngħorydd yn neuadd y dref.

We spoke to a counsellor at the town hall.

Roedd yn trin yr athro â pharch.

He treated the teacher with respect.

The preposition **gyda** (with):

Ydych chi eisiau cig gyda thatws?

Do you want meat with potatoes?

The adverb **tua** (approximately):

Mae tua phedair milltir i'r dref.

It is about four miles to the town.

The number **tri** (three) before a masculine noun:

Mae tri thraeth ar hyd yr arfordir.

There are three beaches along the coast.

However, this treiglad rule does not apply to **tair** (three) used with feminine nouns:

Mae tair tref gerllaw.

There are three towns nearby.

A **treiglad llaes** is applied after the pronoun **ei** when this refers to a feminine noun:

Aethon ni yn ei char. We went in her car.

However, a **treiglad meddal** is applied after the pronoun **ei** when this refers to a masculine noun:

Aethon ni yn ei gar. We went in his car.

The treiglad trwynol can affect six letters at the start of words:

p becomes **mh**

t becomes **nh**

c becomes **ngh**

b becomes **m**

d becomes **n**

g becomes **ng**

A treiglad trwynol occurs with the preposition **yn** (in):

Fe brynon ni'r dodrefn yng Nghaerdydd.

We bought the furniture in Cardiff.

A treiglad trwynol occurs with the pronoun **fy** (my):

Byddaf yn ysgrifennu at fy mrawd.

I will write to my brother.

A treiglad trwynol is associated with the prefix **an-** in a number of common words, for example:

annhebyg unlikely

anghofio forget

anhrefn chaos

amhosib impossible

Idioms

The word 'dros' can have several meanings:

over

Mae eira dros y mynyddoedd heddiw.

There is snow over the mountains today.

more than

Mae gan y siop dros deg math o ffôn ar werth.

The store has more than ten types of phones on sale.

on behalf of

Apeliodd y cyfreithiwr i'r llys dros ei gleient.

The solicitor appealed to the court on behalf of his client.

'dros' appears in a number of common phrases and idioms:

dros dro - temporarily

Fe wnaethon ni storio'r hen ddodrefn yn y garej dros dro.

We stored the old furniture in the garage temporarily.

dros ben llestri - over the top, out of control

Roedd ei feirniadaeth gynddeiriog o'r rheolwr dros ben llestri.

His furious criticism of the manager was over the top.

dros ben - exceptionally, exceedingly

Canodd y côr yn dda dros ben yn y gystadleuaeth.

The choir sang exceedingly well in the competition.

dros amser - over time, eventually

Dros amser daeth y castell yn adfail.

Over time the castle became a ruin.

dros cyfnod - for a period of time

Cydweithiodd y gwyddonwyr dros cyfnod ar yr arbrawf.

The scientists worked together for a period on the experiment.

drosodd - finished

Mae'r gwyliau drosodd nawr a rhaid i mi fynd yn ôl i'r gwaith.

The holiday is over now and I must go back to work.

drosodd a throsodd - over and over

Mae gennych chi'r un peth i ginio drosodd a throsodd.

You have the same thing for lunch over and over.

dros ei ben a'i glustiau - head over heals, deeply

Mae ei gambllo wedi cael e dros ei ben a'i glustiau mewn dyled.

His gambling has got him head over heels in debt.

Sentences

A gawsoch chi help gan y garddwr? Do.

Did you get help from the gardener? Yes.

A oedd cur pen arni hi ddoe? Nag oedd.

Did she have a headache yesterday? No

Sawl bwyty weloch chi yn y dref? Gwelais i dri.

How many restaurants did you see in the town? I saw three.

Ydych chi'n bwriadu cychwyn ar y prosiect y flwyddyn nesaf? Ydw.

Do you intend to start on the project next year? Yes.

Allwch chi ffonio'r meddyg ar unwaith? Gallaf.

Can you phone the doctor immediately? Yes.

Lle cawsoch chi'r llyfr? Ei cefais o siop lyfrau yn y dref.

Where did you get the book? I got it from a bookshop in the town.

Pryd oedd e yma? Roedd e yma tua deuddeg o'r gloch.

When was he here? He was here at about twelve o'clock.

A fydd e'n deall rheolau'r gêm? Bydd.

Will he understand the rules of the game? Yes.

Pam nad oedd o ar werth y llynedd? Dydw i ddim yn gwybod.

Why wasn't it for sale last year? I don't know.

Wnaethoch chi gytuno â phopeth? Naddo, nid popeth.

Did you agree to everything? No, not everything.

Faint yw'r ci hwnnw yn y ffenestr? Nid yw'r ci hwnnw ar werth.

How much is that dog in the window? That dog is not for sale.

A ddylen ni fynd i'r dosbarth Cymraeg? Fe ddylen ni.

Should we go to the Welsh class? We should.

Ydy hi'n mynd i ffwrdd yr wythnos nesaf? Nag ydy, mae hi'n aros am wythnos arall.

Is she going away next week? No, she is staying for another week.

A ddewch chi draw i helpu? Na dof, dydw i ddim eisiau helpu.

Will you come over to help? No, I don't want to help.

Odden nhw gartref ddydd iau diwethaf? Odden.

Were they at home last Thursday? Yes.

Dyna'r ateb cywir, ynte? Ydy.

That is the right answer, isn't it? Yes.

A oes unrhyw fwcedi yn y sied? Oes, mae dau.

Are there any buckets in the shed? Yes, there are two.

A allwch chi gael lifft adref ar ôl y cyfarfod? Gallaf.

Can you get a lift home after the meeting? Yes.

Faint o'r gloch fydd y ffilm yn cychwyn? Bydd yn dechrau am saith o'r gloch.

What time does the film start? It starts at seven o'clock.

Pwy sydd ar glawr y cylchgrawn newydd? Prif weinidog Seland Newydd ydy honna.

Who is on the cover of the new magazine? That is the prime minister of New Zealand.

Article: Crossing the Severn estuary



Mae Aber Hafren wedi bod yn rhwystr i deithwyr rhwng Cymru a Lloegr ers yr amseroedd cynharaf.

The Severn Estuary has been an obstacle for travellers between Wales and England since earliest times.

Croesodd milwyr Rhufeinig yr Hafren mewn cwch o Aust, ger Pont Hafren bresennol.

Roman soldiers crossed the Severn by boat from Aust, near the present Severn Bridge.

Yng Nghanol Oesoedd, defnyddiwyd yr un man croesi gan fynachod Abaty Tyndyrn.

In the Middle Ages, the same crossing point was used by the monks of Tintern Abbey.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuodd fferi stêm, ac adeiladwyd ceiau ar y ddwy lan.

In the nineteenth century a steam ferry began, and quays were built on both banks.

Adeiladwyd pont reilffordd ym 1879, dilynwyd gan dwnnel rheilffordd Hafren ym 1886.

A railway bridge was built in 1879, followed by the Severn railway tunnel in 1886.

Collodd y gwasanaeth cychod stêm ei draffig, a chaeodd y gwasanaeth.

The steam boat service lost its traffic, and the service closed.

Roedd pont reilffordd Hafren yn draphont hir gydag un ar hugain o rychwantau yn cael eu cynnal ar silindrau haearn.

The Severn railway bridge was a long viaduct with twenty one spans supported on iron cylinders.

Roedd y bont yn cludo trenau o fwyn haearn a glo o gloddfeydd yn Fforest y Ddena.

The bridge carried trains of iron ore and coal from mines in the Forest of Dean.

Parhaodd y bont i gael ei defnyddio tan 1960 pan fu dwy long, oedd yn cludo tanwydd, mewn gwrthdrawiad, yna eu tarodd y bont yn achosi ffrwydrad.

The bridge continued to be in use until 1960 when two ships, which were carrying fuel, collided and then struck the bridge, causing an explosion.

Byddai'r atgyweiriadau i'r bont wedi bod yn rhy ddrud, felly cafodd ei dymchwel.

Repairs to the bridge would have been too expensive, so it was demolished.

Pan adeiladwyd Twnnel Hafren, hwn oedd y twnnel rheilffordd hiraf ym Mhrydain.

When the Severn Tunnel was built, it was the longest rail tunnel in Britain.

Cafodd y peirianwyr broblemau enfawr gyda dŵr yn lloifio i'r twnnel o'r graig o'i amgylch.

The engineers had huge problems with water flowing into the tunnel from the surrounding rock.

Mae'r twnnel yn dal i gludo'r rheilffordd o Fryste i Dde Cymru.

The tunnel still carries the railway from Bristol to South Wales.

Mae angen pwmpio yn barhaus i'w gadw'n sych.

Continual pumping is required to keep it dry.

Wrth i draffig modur yn cynyddu, ailagorwyd y gwasanaeth fferi ym 1926.

As motor traffic increased, the ferry service was re-opened in 1926.

Roedd y fferïau bach yn gallu cario tua ugain o geir.

The small ferries were able to carry about twenty cars.

Cafodd yr amrediad llanw enfawr effaith ar amserlen y fferi.

The huge tidal range affected the ferry timetable.

Nid oedd y cychod yn gallu gweithredu ar lanw isel nac ar lanw uchel iawn.

The boats were unable to operate at low tide or at very high tide.

Caeodd y fferi ym 1966 pan agrorodd Pont Hafren gyntaf.

The ferry closed in 1966 when the first Severn Bridge opened.

Mae'r bont grog enfawr hon yn cario'r draffordd.

This huge suspension bridge carries the motorway.

Dilynwyd hyn gan adeiladu Ail Groesfan Hafren, adnabyddir hefyd fel Pont Tywysog Cymru.

This was followed by construction of the Second Severn Crossing, also known as the

Prince of Wales Bridge.

Hyd at fis Rhagfyr 2018, roedd yn rhaid i yrwyr dalu toll i groesi'r naill neu'r llall o'r pontydd, ond ni chodir tollau mwyach.

Until December 2018, drivers had to pay a toll to cross either of the bridges, but tolls are no longer charged.

Speaking and writing challenge

Select an estuary or sea channel which is crossed by a major bridge or tunnel. Explain why transport links across this body of water are important. Who are the main users of the bridge or tunnel?

Example article:

Mae Ynys Môn wedi'i chysylltu â thir mawr o Gymru gan ddwy bont ar draws y Fenai.

Adeiladwyd y bont gyntaf gan Thomas Telford ym 1819 fel rhan o ffordd fawr yn cysylltu Llundai â phorthladd Caergybi.

Roedd Iwerddon wedi ymuno â'r Deyrnas Unedig yn ddiweddar, felly roedd angen gwell cyfathrebu ar gyfer busnes y llywodraeth.

Y cynllun a ddewiswyd oedd pont grog uchel a oedd yn caniatáu i longau hwylio basio oddi tanu.

Erbyn canol y 19eg ganrif, roedd angen cysylltiad rheilffordd o Lundain i Gaergybi.

Dyluniodd Robert Stephenson bont arall a agrorwyd ym 1850.

Roedd hon yn cynnwys dau diwb dur hirsgwar yn uchel uwchben y dŵr a oedd yn cludo'r rheilffyrdd.

Parhaodd y bont reilffordd i gael ei defnyddio tan 1970, pan fuodd grŵp o bobl ifanc lleol a oedd yn tresmasu yn y twnnel gychwyn Tân a ddinistriodd y bont.

Dechreuodd y gwaith o ddylunio un newydd ar unwaith.

Penderfynwyd adeiladu pont gyda dau ddec i gludo'r rheilffordd ar lefel isaf a ffordd fawr ar lefel uchaf.

Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol y tagfeydd ar gyfer traffig sy'n teithio rhwng Ynys Môn a'r tir mawr, yn enwedig ar gyfer lorïau trwm sy'n defnyddio'r fferi i lwerdon.

Mae traffig ceir ar draws y Fenai yn cynyddu, yn enwedig yn yr haf oherwydd bod pobl yn mynd ar wyliau yn Ynys Môn.

Mae cynlluniau i adeiladu trydedd bont er mwyn lleihau oedi.

Story



Mae Chris yn adeiladwr.

Chris is a builder.

Pan briododd e â Sue, cytunon nhw y byddent yn adeiladu eu cartref perffaith eu hunain un diwrnod.

When he married Sue, they agreed that they would build their own perfect home one day.

Yn ystod ei waith, gofynnwyd i Chris edrych ar adfail castell.

During his work, Chris was asked to look at a ruined castle.

Dyn busnes oedd y perchennog a oedd wedi prynu'r adfail yn rhad ac eisiau ei adfer.

The owner was a businessman who had bought the ruin cheaply and wanted to restore it.

Esboniodd Chris y byddai'r prosiect yn cymryd blynnyddoedd, ac y byddai'r gost yn enfawr.

Chris explained that the project would take years, and the cost would be enormous.

Cafodd y dyn busnes ei siomi, a dywedodd wrth Chris y byddai'n cefnu ar y prosiect ac yn gwerthu'r castell.

The businessman was disappointed, and told Chris that he would abandon the project and sell the castle.

Sylweddolodd Chris y gallai hwn fod y cartref yr oedd yn breuddwydio amdanol.

Chris realised that this could be the home he was dreaming about.

Gwnaeth gynnig am yr adfail, a derbyniwyd ef.

He made an offer for the ruin, and it was accepted.

Gwerthodd Chris a Sue eu tŷ, a symud i mewn i garafán ger y castell.

Chris and Sue sold their house, and moved into a caravan by the castle.

Dechreuon nhw weithio a chwblhau cwpl o ystafelloedd lle gallan nhw fyw.

They started work and completed a couple of rooms where they could live.

Un o'r problemau mwyaf oedd dod o hyd i gyflenwad dŵr.

One of the biggest problems was finding a water supply.

Byddai'n ddrud iawn gosod peipiau dŵr o'r pentref agosaf, ac nid oedd unrhyw ffynonellau dŵr eraill gerllaw.

It would be very expensive to lay water pipes from the nearest village, and there were no other water sources near by.

Caniataodd ffermwyr lleol iddynt lenwi cynwysyddion dŵr, ond datrysiaid dros dro yn unig oedd hwn.

A local farmer allowed them to fill containers of water, but this was only a temporary solution.

Un noson pan oeddent yn y castell, bu storm fellt a tharanau enfawr yn union uwchben.

One night when they were in the castle, there was an enormous thunder storm right overhead.

Cafodd eu cath ei dychrynu a chuddiodd o dan y gwely.

It terrified their cat and she hid under the bed.

Yn sydyn bu streic mellt yn agos iawn, ac yna sŵn chwalu.

Suddenly there was a lightening strike very close by, followed by a crashing noise.

Rhuthron nhw allan i weld beth oedd wedi digwydd.

They rushed out to see what had happened.

Roedd y mellt wedi taro coeden ac yna chwympodd hi.

The lightning had struck a tree and then it fell.

Tynnodd y gwreiddiau gerrig i ffwrdd i ddatgelu hen ffynnon.

The roots pulled away rocks to reveal an old well.

Roedd hyn wedi darparu dŵr i'r castell.

This had provided water for the castle.

Roedd eu problem cyflenwad dŵr wedi'i datrys.

Their water supply problem had been solved.

Use of Welsh: Mountain Rescue news story

A report has been received of walkers being rescued on Cader Idris.

On the web page you are invited to translate the report into Welsh.



Am tua hanner awr wedi pump yn yr hwyr derbyniodd y tîm Achub Mynydd neges bod grŵp o chwe cerddwr ar goll ar Gadair Idris.

At around half past five in the evening the Mountain Rescue team received a message that a group of six walkers were lost on Cader Idris.

Roedd y grŵp yn cynnwys dau barti gwahanol, ac roedd un ohonynt yn ceisio Her y Tri Chopa Cymru i godi arian at elusen.

The group was composed of two different parties, one of which was attempting the Welsh Three Peaks Challenge to raise money for charity.

Collwyd y ddau yn y cwmwl isel a glaw ar lwyfandir copa Mynydd Moel.

Both were lost in the low cloud and rain on the summit plateau of Mynydd Moel. Ymunodd y grwpiau i ddod o hyd i ffordd oddi ar y mynydd, ond yn y diwedd daethon nhw i lawr ar y gogledd yn hytrach nag ochr ddeheuol y mynydd.

The groups joined to find a way off the mountain, but in the end they came down on the north rather than the south side of the mountain.

Mae llwybr yn arwain i'r de, ond mae'r ochr ogledol yn gorffen mewn clogwyni uchel.

A path leads to the south, but the north side ends in high cliffs.

Gyda thywylwch yn disgyn, yn wlyb, yn oer ac yn flinedig, ac wedi mynd oddi ar ymyl eu map, fe wnaethant alw am help.

With darkness descending, wet, cold and tired, and having gone off the edge of their map, they called for help.

Mae'n ffodus i'r grŵp stopio lle gwnaethant, oherwydd byddent wedi cael anhawster mawr wrth ddisgyn y clogwyn.

It is fortunate that the group stopped where they did, because they would have had great difficulty when descending the cliff.

Dringodd gwirfoddolwyr y Tîm Achub Mynydd i fyny'r bryn i gwrdd â'r grŵp.

Mountain Rescue Team volunteers climbed up the hill to meet the group.

Fe wnaethant ddarparu goleuadau ychwanegol iddynt, a'u hebrwng i lawr i'r ffordd.

They provided extra lighting to them, and escorted them down to the road.

Roedd pawb yn ôl yn ddiogel yn eu cerbydau toc wedi wyt h o'r gloch.

Everyone was safely back at their vehicles shortly after eight o'clock.

Mynegodd y Tîm Achub Mynydd eu pryder ynghylch grwpiau sy'n ymgymryd â heriau mawr i elusen, heb brofiad digonol yn y mynyddoedd.

The Mountain Rescue Team expressed their concern about groups undertaking major challenges for charity, without sufficient experience in the mountains.

Roedd angen hyfforddiant priodol ar gyfer digwyddiad fel Her Tri Chopa Cymru, sy'n cynnwys dringo Pen y Fan, Cader Idris a'r Wyddfa un ar ôl y llall.

Proper training was needed for an event such as the Welsh Three Peaks Challenge, which involves climbing Pen y Fan, Cader Idris and Snowdon one after another.

Description



- Ydy'n anarferol i reilffordd redeg ar hyd prif ffordd?
- Ydy'r trac rheilffordd yn gul?
- Ble yng Nghymru ydyn ni?
- Pam mae angen injans mawr a phwerus ar y rheilffordd?
- Beth sydd yn yr adeilad ar ochr chwith y llun a fyddai'n ddefnyddiol i ymwelwyr?

Understanding Welsh

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Ydych chi erioed wedi profi anhawster wrth geisio cael gwasanaeth Gymraeg? Cael eich trin yn amharchus wrth drio siarad Cymraeg? Cael trafferth cael addysg Gymraeg i chi neu'ch plant?

Yn 1962, dywedodd Saunders Lewis fod angen chwyldro er mwyn achub yr iaith Gymraeg. Am dros hanner canrif mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod ar flaen y gad yn arwain y chwyldro hwnnw.

1960au – Arwyddion Ffyrdd

1970/80au – Sianel Deledu Cymraeg

1990au – Deddf Iaith 1993

2010 – Statswrs Swyddogol i'r Gymraeg

2011 – Sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ond mae'r Gymraeg yn ddiogel erbyn hyn?

Mae'n wir bod sefyllfa'r iaith wedi cryfhau dros y blynnyddoedd mewn rhai meysydd, ond mae cymaint o ffactorau fel effaith globaleiddio, toriadau mewn gwariant a dirywiad cymunedau Cymraeg yn bygwth yr iaith. Mae'r bygythiadau diweddar i S4C a diffyg ein hawdurdodau lleol i weithredu trwy'r Gymraeg yn brawf o'r angen i barhau i frwydro ac amddiffyn yr iaith a'n cenedligrwydd. Er mwyn iddi fod yn iaith fyw rhaid i ni ei defnyddio ym mhob rhan o'n bywydau; yn iaith naturiol yn ein cymunedau, ar y we, yn y siop, yn gyfrwng i'n haddysg, radio a theledu.

Ond dydw i ddim yn un i protestio...

Wrth gwrs eich bod chi! Nid protestio ar y strydoedd a wnawn ni drwy'r amser. Hanfod y Gymdeithas yw gweithredu yn ôl y dull di-drais; gall hyn fod yn unrhyw beth o ysgrifennu llythyr am ddiffyg gwasanaeth Gymraeg neu gasglu llofnodion ar ddeiseb hyd at protestio neu hyd yn oed baentio sloganau. Does neb o fewn y Gymdeithas yn cael ei gorfodi i wneud unrhyw beth a roddir y pwyslais ar annog a chynorthwyo ein haelodau i gyfrannu a datblygu eu sgiliau neilltuol. Mae lobio busnesau, cynghorau sir a gwleidyddion yn rhywbeth sy'n digwydd drwy'r flwyddyn ac mae angen help ein haelodau i wneud hyn. Mae angen pobl sy'n gallu ysgrifennu, darlunio, cyfathrebu, creu pethau, pobl gydag arbenigedd mewn addysg, cyfraith, adloniant, cyfrifiaduron, yn wir, beth bynnag eich talentau, mae yna le i chi helpu gyda gwaith y Gymdeithas.

According to the article, what problems might be experienced by people wishing to use Welsh?

Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael anhawster cael gwasanaethau yn Gymraeg, gallant gael eu trin yn amharchus am siarad yr iaith, neu gallant gael anhawster cael addysg gyfrwng Gymraeg i`w plant.

Who is mentioned as first leading the fight to protect the Welsh language?

Roedd Saunders Lewis yn arweinydd cynnar, a dywedodd ym 1962 bod angen chwyldro i achub y Gymraeg.

What did the Welsh Language Society achieve in the 1960s?

Trefnodd y Gymdeithas ymgrych i ddangos enwau lleoedd yn ddwyieithog ar arwyddion ffyrdd yng Nghymru.

What was the focus of the Society in the 1970s and 80s?

Cynhaliodd y Gymdeithas ymgrych lwyddiannus i greu sianel deledu Gymraeg.

According to the article, what factors threaten the Welsh language at the present day?

Mae bygythiadau i'r Gymraeg yn sgil globaleiddio, toriadau mewn cyllid i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith, bygythiadau i wneud toriadau i sianel deledu Gymraeg S4C, a sefydliadau llywodraeth leol nad ydynt yn gweithio trwy gyfrwng Cymraeg.

What examples are given of activities carried out by the Society?

Mae'r Gymdeithas yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau, o ysgrifennu llythyrau i gwyno am ddiffyg gwasanaethau trwy gyfrwng Cymraeg, i gasglu llofnodion ar gyfer deisebau a chymryd rhan mewn cyfarfodydd protest.

What examples are given of members' skills that are of use to the Society?

Mae'r Gymdeithas yn croesawu cymorth gan aelodau sydd â sgiliau ysgrifennu a dylunio cyhoeddiadau, cyfieithu, a gwybodaeth arbennig am y gyfraith, a chyfrifiadura.

Story board

The Marquises of Bute


1: The Cardiff docks were built by the 2nd Marquis of Bute. He owned much of the land around the mouth of the River Taff, and saw an opportunity to develop the export of coal from South Wales. He also invested in railways to carry the coal from the mines to the port.

Adeiladwyd dociau Caerdydd gan Ail Ardalydd Bute. Roedd yn berchen ar lawer o'r tir o amgylch aber Afon Taf, a gwelodd gyfle i ddatblygu allforio glo o Dde Cymru. Buddsoddodd hefyd mewn rheilffyrdd i gludo'r glo o'r pyllau glo i'r porthladd.



2: The Marquis owned extensive estates in the South Wales valleys. Large amounts of coal were found beneath this land. The Marquis opened some of his own collieries, and also leased land to other industrialists to develop collieries.

Roedd yr Ardalydd yn berchen ar ystadau helaeth yng nghymoedd De Cymru. Daethpwyd o hyd i symiau mawr o lo o dan y tir hwn. Agorodd yr Ardalydd rai o'i lofeydd ei hun, a hefyd prydlesodd dir i ddiwydianwyr eraill i ddatblygu glofeydd.



3: Coal mined in the South Wales valleys could be used in the production of iron. The early iron industry was centred on Merthyr Tudfil, where the Marquis invested in the Dowlais Ironworks. Income from the docks, railways, coal mines and iron works eventually made the 2nd Marquis of Bute the richest man in the world.

Gallai glo a gloddiwyd yng nghymoedd De Cymru cael ei ddefnyddio i gynhyrchu haearn. Canolbwyt y diwydiant haearn cynnar oedd Merthyr Tudful, lle y buddsoddodd yr Ardalydd yng Ngwaith Haearn Dowlais. Daeth incwm o'r dociau, y rheilffyrrd, y pyllau glo a'r gweithfeydd haearn yn y pen draw i wneud yr Ail Ardalydd Bute y dyn cyfoethocaf yn y byd.




4: When the 2nd Marquis of Bute died, his huge wealth was passed on to his son, the 3rd Marquis of Bute. The 3rd Marquis was less interested in industry, but had a great enthusiasm for architecture and medieval history. In 1865, the Marquess met the architect William Burges and the two worked together to extend Cardiff Castle.



Pan fu farw Ail Ardalydd Bute, trosglwyddwyd ei gyfoeth enfawr i'w fab, 3ydd Ardalydd Bute. Roedd gan y 3ydd Ardalydd lai o ddiddordeb mewn diwydiant, ond roedd ganddo frwdfrydedd mawr dros bensaernïaeth a hanes canoloesol. Ym 1865, cyfarfu'r Ardalydd â'r pensaer William Burges a bu'r ddau yn cydweithio i ymestyn Castell Caerdydd.

5: The rooms of the castle have been built in a rich medieval style by skilled craftsmen.

Adeiladwyd ystafelloedd y castell mewn arddull ganoloesol gyfoethog gan grefftwyr medrus.



6: The Marquis then asked William Burges to design a country residence where he could go to entertain important friends. The result was Castell Coch. This has the appearance of a fairy tale castle, with its conical towers rising from the forested hillside.

Yna gofynnodd yr Ardalydd i William Burges ddylunio preswylfa wledig lle gallai fynd i ddiddanu ffrindiau pwysig. Y canlyniad oedd Castell Coch. Mae hwn yn edrych fel castell stori dylwyth teg, gyda'i dyrau conigol yn codi o ochr y bryn coediog.



7: The design of Castell Coch was based on medieval European castles, with a central courtyard surrounded by wooden galleries. The rooms are again furnished in a rich medieval style, and beautifully constructed by skilled craftsmen.

Seiliwyd cynllun Castell Coch ar gestyll Ewropeaidd canoloesol, gyda chwrt canolog wedi'i amgylchynu gan orielau pren. Mae'r ystafelloedd eto wedi'u dodrefnu mewn arddull ganoloesol gyfoethog, ac wedi'u hadeiladu'n hyfryd gan grefftwyr medrus.



16 Lower Swansea Valley

Language notes

In a previous session we discussed pronouns. Here we will review these and introduce some further concepts.

Use of pronouns can avoid unnecessary repetition of names when referring to the same person or object several times. For example:

Siaradodd Siwan â John a Lowri.

may be written more concisely as:

Siaradodd hi â nhw.

A set of special pronouns can be used when emphasising a similarity or contrast:

	Singular		Plural	
1st person	innau, minnau	I, me	ninnau	we, us
2nd person	tithau, dithau	you	chithau	you
3rd person	yntau hithau	he, him she, her	nhwthau	they, them

A sentence with no particular emphasis might be:

Mae Huw eisiau mynd, a fi hefyd.

Huw wants to go, and me too.

Emphasis may be applied to 'me too' by writing:

Mae Huw eisiau mynd, a minnau hefyd.

Other examples are:

Mae John a fi yn cytuno. Beth am tithau?

John and I agree. What about you?

Mae'n well i chithau fynd i ofyn i'r rheolwr.

It's best that you go to ask the manager.

Another set of pronouns refer back to the person by including the word 'self':

	Singular		Plural	
1st person	fy hun	myself	ein hunain	ourselves
2nd person	dy hun	yourself	eich hunain	yourself / yourselves
3rd person	ei hun	himself, herself	eu hunain	themselves

For example:

Fe wnaethon nhw adeiladu'r tŷ eu hunain.

They built their own house.

Coginion ni bryd o fwyd ein hunain.

We cooked our own meal.

A common idiom uses '**ar ben**' along with a form of '**hun**' to mean '**alone**':

Rwy'n mynd am dro ar fy mhen fy hun.

I am going for a walk on my own.

Cwblhaodd y myfyrwyr y gwaith ar eu pennau eu hunain.

The students completed the work on their own.

Demonstrative pronouns are used to identify particular persons or objects:

	masculine	feminine
this	hwn	hon
that	hwnnw	honno
these		y rhain
those		y rheiny

'**y rhain**' is a contraction of '**y rhai hyn**' : 'these ones'

'**y rheiny**' is a contraction of '**y rhai hynny**' : 'those ones'

The words 'this', 'that', 'these' and 'those' can also be used as adjectives:

this house, that car, those trees

In the singular, the same words in Welsh are used as pronouns or as adjectives :

Byddaf yn symud y bwrdd hwn a'r gadair honno i'r gegin.

I will move this table and that chair to the kitchen.

Byddaf yn symud hwn a honno i'r gegin.

I will move this and that to the kitchen.

There is a different usage in the plural, where the adjectives are:

these	hyn
those	hynny

For example:

Byddwn yn bwyta'r llysiau hyn gyda'r pasteiod hynny.

We will eat these vegetables with those pies.

Byddwn yn bwyta'r rhain gyda'r rheiny.

We will eat these with those.

A slight complication is that **hwnnw**, **honno** and **hynny** imply that the person or object is far enough away that it cannot be seen directly by the speaker.

For an adjective, if the person or object is in sight then the expression '**yna**' or '**acw**' is used:

Y dyn yna yw Mr Jones.

That man is Mr Jones.

Mae'r tai acw ar werth.

Those houses are for sale.

For a pronoun, if the person or object is in sight then the expression '**hwnna**' (masculine) or '**honna**' (feminine) is used:

Dyna fy nghar. Byddwn yn defnyddio hwnna.

That's my car. We will use that.

Dyna'r bont. Mae e'n byw yr ochr arall i honna.

That's the bridge. He lives the other side of that.

The forms **hyn** 'this' and **hynny** 'that' (singular) are used as pronouns when referring to ideas or extended pieces of information, rather than specific persons or objects. For example:

Hynny ydy'r ffordd orau i baentio'r wal.

That is the best way to paint the wall.

Mae hyn yn gynllun ardderchog.

This is an excellent plan.

Treigladau

Negative verb tenses can be produced by inserting '**ni**' before the verb or '**ddim**' after the verb, for example:

Ni siaradodd e. or **Siaradodd e ddim.**

He did not speak

When used with a verb, **dim** undergoes a **treiglad meddal** to give '**ddim**'.

Notice, however, there is no treiglad if **dim** is used with a noun:

Ffoniais i ond doedd dim ateb.

I phoned but there was no answer.

Aethon ni i'r farchnad ond doedd dim llysiau ar werth.

We went to the market but there were no vegetables for sale.

Short form verbs in negative tenses provide one of the few instances in Welsh where a mixed treiglad is applied:

- If the verb begins with **p**, **t** or **c**, a **treiglad llais** is applied.
- In other cases, a **treiglad meddal** is applied where possible.

Examples of the alternative negative verb forms are:

Ni chanodd hi yn y cyngerdd.

She did not sing in the concert.

Chanodd hi ddim yn y cyngerdd.

Ni phrynant nhw fwyd.

They did not buy food.

Phrynant nhw ddim bwyd.

Ni yrroch chi i'r cyfarfod.

You did not drive to the meeting.

Yrroch chi ddim i'r cyfarfod.

Ni roddodd e arian iddi hi.

He did not give money to her.

Roddodd e ddim arian iddi hi.

Where '**ddim**' would be immediately followed by the definite article '**y**', then it is replaced by '**mo**', which is a contraction of '**ddim o**'. For example:

Ni ddarllenodd e'r llyfr.

He did not read the book.

Ddarllenodd e mo'r llyfr.

Ni thorrais i'r gwair.

I did not cut the hay.

Thorrais i mo'r gwair.

Idioms

The word 'er' can have several meanings:

in order to

Gweithiodd yr athro'n galed er annog y myfyrwyr.

The teacher worked hard to encourage the students.

although, despite

Cafodd yr hen adeilad ei ddymchwel er nifer o bobl yn protestio.

The old building was demolished despite many people protesting.

causing, resulting in

Cynyddodd y llywodraeth y dreth er busnesau yn cau.

The government increased the tax causing businesses to close.

'er' appears in a number of common phrases and idioms:

er gwaethaf - despite

Aethant am dro er gwaethaf y tywydd gwael.

They went for a walk despite the bad weather.

er dim - on no account, for any reason

Ddylai'r brifysgol ddim yn newid y trefniadau arholi er dim.

The university should on no account change the examination arrangements.

er da neu drwg - for good or evil

Bydd y cynllun ad-drefnu yn mynd yn ei flaen, er da neu ddrwg.

The reorganisation plan will go ahead, for good or evil.

er hynny - despite that, none the less

Roedd y niwl yn drwchus ond er hynny fe gyrraeddon nhw'r copa.

The mist was thick, but none the less they reached the summit.

er lles - for the benefit of

Rydyn ni'n atal y plant rhag bwyta gormod o fwyd sydyn er eu lles nhw.

We stop children eating too much fast food for their benefit.

er mwyn - for the sake of, in order to

Adeiladodd wal er mwyn cadw defaid allan o'i ardd.

He built a wall in order to keep sheep out of his garden.

er y byd - for the world

Fyddwn i ddim eisai gweithio mewn pwll glo er y byd.

I wouldn't for the world want to work in a coal mine.

The word 'ers' has the meaning 'since':

Rydym wedi byw yma ers dwy flynedd.

We have lived here for two years.

'ers' appears in a number of common phrases and idioms:

ers tro / ers amser - for a long time

Mae hi wedi bod yn diwtor Cymreig ers amser.

She has been a Welsh tutor for a long time.

ers llawer dydd / ers talwm - in the olden days, in the past

Roedd sinema yn y dref ers talwm.

There was a cinema in the town in the past.

Sentences

Mae'n amser i adael y swydd hon yn y bwyty hwn.

It's time to leave this job in this restaurant.

Doedd dim byd yn arbennig yn digwydd ar y pryd hynny.

There was nothing special happening at that time.

Dydw i ddim eisiau'r dodrefn hwnna yn yr ystafell hon.

I don't want that furniture in this room.

A wnaethoch chi brynu'r rheiny eich hunan?

Did you buy those yourself?

Mae pethau'n ddrud yn y siopau. Mae hynny'n amlwg.

Things are expensive in the shops. That is obvious.

Digwyddodd pan oeddent ar eu pennau eu hunain.

It happened when they were on their own.

Pwy sydd ddim yn derbyn y penderfyniad hwn? Chithau?

Who does not accept this decision? You?

Nid yw'r rhain o unrhyw werth, ond gallem ni werthu'r rheiny.

These are of no value, but we could sell those.

Roedd llun o'r bobl hynny yn y cylchgrawn.

There was a picture of those people in the magazine.

Ydych chi'n mynd i'r dref ar eich pen eich hun neu gyda nhw?

Are you going to the town on your own or with them?

Ni ddwedodd y stori am y daith honno i Gaerdydd.

He didn't tell the story about that trip to Cardiff.

Mae'r tywydd yn waeth yn y cwm hwnnw nag yn yr un hwn.

The weather is worse in that valley than in this one.

A wnewch chi adael iddyn nhw baentio'r cwch eu hunain?

Will you let them paint the boat themselves?

Ydy'r rhain y llyfrau y prynoch chi yn y siop honno?

Are these the books that you bought at that shop?

Rhaid i mi newid y teiar car hwnnw ar fy mhen fy hun y bore'ma.

I have to change that car tyre on my own this morning.

Beth oedd eich rheswm dros ddewis y gwesty hwn yn hytrach na'r un hwnnw?

What was your reason for choosing this hotel rather than that one?

Ni chlywsom ragolwg y tywydd ar gyfer yr ardaloedd hynny.

We did not hear the weather forecast for those areas.

Ni welais y bachgen hwnnw yn unman.

I did not see that boy anywhere.

Daeth yn gyflym pan dderbyniodd yr alwad ffôn honno.

He came quickly when he received that phone call.

Ni phrynais fwyd o'r siop honno.

I did not buy food from that shop.

Article: Lower Swansea Valley



Yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Cwm Tawe Isaf yn ardal ddiwydiannol fawr.

During the eighteenth and nineteenth centuries, the Lower Swansea Valley was a major industrial area.

